

# DOLEN Y TAB 71

3–4 Medi 2021

Cofiwch mai am **11** o'r gloch  
y cynhelir yr oedfaon am y tro

## Oedfa 5 Medi

Yng nghwmni Edwyn Evans, Geraint Rees  
a John Llewelyn Thomas.

### Oedfaon Gweddill Medi

- 12** Yng ngofal Heulyn Rees a'r Parchg. Aled Edwards.
- 19** Yng ngofal Helen Prosser a Lowri a Dafydd Roberts.
- 26** Yng nghwmni Rhiannon Humphreys a'r teulu.

### Hefyd ddydd Sul 5 Medi

#### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Rhys Locke, Creunant.

#### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

#### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Oedfa Sul yr Hinsawdd

Eleni, cynhelir Sul yr Hinsawdd ar 5 Medi. Cyfle fydd hwn eleni eto i weddio a chodi ymwybyddiaeth o beryglon newid hinsawdd. Ond gyda llai na 100 diwrnod yn weddill

cyn cynnal cynhadledd ryngwladol y Cenhedloedd Unedig, sef COP26, yn Glasgow mae pwysigrwydd tyngedfennol yr achlysur yn fwy amlwg nag erioed. Er mwyn cyfleu eu safbwynt yn groyw ar gyfrifoldeb arweinwyr y byd, mae'r enwadau a mudiadau Cristnogol eraill ledled ynysoedd Prydain wedi trefnu oedfa arbennig yn Eglwys Gadeiriol Glasgow fydd yn cael ei ffrydio'n fyw ar *You Tube* am 4 bawn Sul. Hefyd, cyn darlledu'r oedfa, dangosir fideos o 3.30yp ymlaen. [COFRESTRWCH](#) nawr i ymuno yn y digwyddiad pwysig hwn!



## Croeso'n Ôl!

Profiad hyfryd fydd cael cyfle i gyd-addoli yn y Tabernacl unwaith eto ddydd Sul, a braf hefyd yw deall y bydd plant yr Ysgol Sul yn cael gweld eu ffrindiau wyneb-yn-wyneb unwaith yn rhagor wedi'r holl aros.

Ond tybed sawl un ohonoch chi sy'n cofio'r oedfa olaf i'w chynnal cyn y clo mawr cyntaf? Oedfa deuluol oedd hi yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys, ar 15 Mawrth 2020. Yr hyn sy'n glir iawn i mi o'r bore hwnnw yw fod pob un oedd wedi mentro i'r capel yn llawn gofid am ledaeniad y pandemig ac yn ofni efallai mai hwn fyddai'r tro olaf i ni gwrdd yno am rai wythnosau. Ond go brin y byddai unrhyw un wedi rhagweld ar y pryd cymaint o newid oedd ar fin digwydd i fywydau pawb, nac ychwaith y byddai deunaw mis yn mynd heibio cyn ein bod yn croesi trothwy'r Tabernacl ar fore Sul unwaith eto.

Wrth bori'n ddiweddar trwy daflen y cyhoeddiadau am y Sul hwnnw ar wefan y Tabernacl, fe'm syfrdanwyd wrth sylwi ar restr mor gyfuriog o ddigwyddiadau lleol oedd wedi eu trefnu dros fisoedd y gwanwyn 2020. Roedd y daflen yn llawn i'r ymylon wrth hysbysebu'r holl weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol hyn. Tristwch pethau yw y bu'n rhaid canslo bron bob un ohonynt, a thros y misoedd canlynol yr un oedd hanes digwyddiadau lleol a chenedlaethol fel ei gilydd. Does ond gobeithio na fydd raid aros am amser hir eto cyn dychwelyd i fwynhau bywyd sy'n fwy tebyg i normal.

**DS Cofiwch y bydd raid cofrestru eich bwriad i fynychu oedfaon ar y Suliau am y tro, a hynny erbyn 6yh fan bellaf ar y dydd Gwener. Cyhoeddir yr holl fanylion o sut i gofrestru ar y dudalen nesaf.**

## DIOLCH YN FAWR UNWAITH ETO!

Diolch yn fawr i chi i gyd am eich ymateb hael a phrydlon i apêl John Llew am ddillad plant a dillad ysgol ar gyfer elusen Carmel Blaenllechau. Mae John bellach wedi danfon y cwbl mewn da bryd ar gyfer dechrau'r tymor ysgol newydd.

Mae'r casgliadau ariannol at Elusennau 2021 a'r Banc Bwyd yn dal i fynd, ac yn dal i dyfu, diolch i'ch parodrwydd chi i gyfrannu.

**DIOLCH YN FAWR I CHI  
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**

# Y Tabernacl ar Radio Cymru

Rydym yn gyfarwydd iawn erbyn hyn â gweld a chlywed lleisiau rhai o aelodau'r Tabernacl ar wasanaethau newyddion y teledu a'r radio, ond yn ystod yr wythnos hon derbyniodd yr eglwys fwy na'i siâr o sylw ar Radio Cymru. Bore Sul 29 Awst, Geraint Rees oedd yng ngofal oedfa Radio Cymru. Wrth ymhelaethu ar gefndir y gwrthrychau a gasglwyd ganddo drwy fynychu Gŵyl Greenbelt ar Sul olaf Awst dros flynyddoedd lawer, tanlinellodd her y cyfrifoldeb sydd arnom tuag at y blaned a chyd-ddyn. Ymhlith yr eitemau cerddorol a ddewisodd i atgyfnerthu ei neges bwysig roedd recordiad Sian Elin o'i gân 'Gwyn ein byd'.

Yna ar raglen *Dros Ginio* pnawn lau roedd trafodaeth rhwng Nan Powell Davies, Eglwys Bethesda, Yr Wyddgrug, ac Emlyn Davies ar swyddogaeth diaconiaid traddodiadol yn ein capeli y dyddiau hyn. Disgrifiodd Emlyn y strwythur a gyflwynwyd yn y Tabernacl deuddeng mlynedd yn ôl, a chyfeiriodd at gyfraniad gwerthfawr yr eglwys i'r gymuned yn ardal Efail Isaf yn enwedig dros gyfnod y pandemig. Os na chawsoch gyfle i glywed y ddwy raglen yn fyw, cofiwch bod cyfle eto dros yr wythnosau nesaf i wrando arnynt ar BBC Sounds.

## EIN SIANEL YOUTUBE

A ninnau ar fin ailagor y capel ar gyfer oedfaon, hoffem dynnu eich sylw at y ffaith bod mwyafrif y gwasanaethau rhithiol a rannwyd dros y 18 mis diwethaf ar gael mewn casgliad cyfleus ar ein sianel *YouTube*. Mae rhai oedfaon na fedrwn eu rhannu am na chafwyd caniatâd rhieni i ddangos eu plant, neu am eu bod yn deillio o gyfrif Facebook preifat. I weld y rhestr, cliciwch [YMA](#).

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 7 Medi. Os hoffech i'r Bwrdd drafod unrhyw fater, yna rhowch wybod i Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01433 225205 / 07710 237327)  
***erbyn nos Lun 6 Medi fan bellaf.***

## AMSERLEN BOREAU SUL

*(Amserlen dros-dro yn unig yw hon, gan obeithio y medrwn ei llacio ymhellach ymlaen)*

### 11.00 – 11.45 OEDFA

Oedfa i ddechrau am 11 o'r gloch er mwyn gadael bwlch digonol rhwng yr oedfa Saesneg a'r oedfa Gymraeg.

### 11.00 – 11.45 YSGOL SUL

Ysgol Sul yn Neuadd y Pentref.

*(Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn mynd yn syth i'r Neuadd)*

## Canllawiau a Chyfrifoldebau

1. I fynychu oedfa bydd gofyn cofrestru ymlaen llaw. Anfonwch e-bost, neges testun neu ffonio – [capelytabernacl@gmail.com](mailto:capelytabernacl@gmail.com) 07710 237327 / 01443 225205 **erbyn 6yh bob dydd Gwener** gan nodi eich bwriad i fynychu naill ai fel unigolyn neu mewn swigen.
2. Bydd angen i aelodau'r gynulleidfa wisgo gorchudd wyneb, heblaw'r rhai sy'n dod i'r blaen i gymryd rhan.
3. Fe ganiateir canu a chyd-ddarllen cynulleidfaol.
4. Bydd hylif diheintio ar gael i bawb yn y fynedfa, a bydd stiwardiaid wrth y drws i'ch tywys i'ch sedd. Bydd gofyn i chi ddilyn y cyfarwyddiadau wrth adael y capel ar ddiwedd oedfa hefyd.
5. Bydd blychau casgliad ar gael yng nghyntedd y capel.
6. Dylech gadw draw o'r oedfa os oes gennych symptomau allai fod yn rai Covid-19, hefyd os ydych wedi derbyn prawf 'positif' neu wedi bod mewn cysylltiad agos ag unigolyn sydd wedi cael prawf 'positif' o fewn y 10 diwrnod diwethaf.
7. Ymhlith y mesurau diogelwch eraill, byddwn yn cadw'r ffenestri a'r drysau ar agor cyn ac yn ystod yr oedfa.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)